ejhales

AR GYFARWYDDYD
CYNGOR CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

TIR SYDD GYFAGOS I'R HEN
ARDAL FOWLIO YM MHARC HAILEY
HEOL TŶ MAWR
YSTUM TAF
Caerdydd
CF14 2FQ

TENDRAU ANFFURFIOL I DDOD I LAW
ERBYN DIWEDD Y DIWRNOD BUSNES
AR ÔL DYDD IAU 31 GORFFENNAF 2025




029 2037 8844 • www.ejhales.co.uk @ej_hales 28 Plas Windsor • Caerdydd • CF10

## LLEOLIAD

Saif Parc Hailey mewn safle canolog yn nyffryn Afon Taf. Mae Taith Taf yn mynd drwy'r parc, sy'n llwybr 55 milltir i gerddwyr a beicwyr o Aberhonddu i Gaerdydd ac mae'n ychwanegu at y cyfleusterau hamdden gwych sydd eisoes ar gael gan gynnwys ardal fawr o gaeau chwaraeon (e.e. rygbi, pêl-droed, rygbi cyffwrdd, pêl fas). Mae pen deheuol Parc Hailey yn gartref i Glwb Rygbi YStum Taf, gyda chaeau ar y parc ar gyfer gemau a hyfforddi tra bod eu y tŷ clwb yn Radyr Road gerllaw. Mae cyfleusterau eraill yn cynnwys cyrtiau tennis ac ardal chwarae wedi'u hadnewyddu.

Mae Parc Hailey hefyd yn gartref i Glybiau Rygbi lleol sy'n chwarae ar gaeau drws nesaf i'r ystafelloedd newid (mynedfa ar hyd Heol Tŷ Mawr).

Mae'r parc yn agos iawn at ganolfan ardal Ystum Taf ar Heol yr Orsaf lle mae siopau a mwynderau eraill gan gynnwys practis milfeddyg, canolfan iechyd a chaffis.

## DISGRIFIAD

Mae'r ardal yn cynnwys yr hen lawnt fowlio ym Mharc Hailey sy'n cael mynediad oddi ar Heol Tŷ Mawr. Hen safle'r Pafiliwn Lawnt Bowlio.

Mae'r ardal yn ymestyn i tua 0.03152 hectar.

## Y CYNNIG

Rydym yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb i ategu'r Parc.

Byddai cynllun busnes a lluniadau yn fuddiol.

## CYNLLUNIO

Byddai unrhyw ddefnyddiwr amgen yn destun Cais Cynllunio.

## ARDRETHI

Bydd unrhyw ddefnydd amgen yn arwain at ailasesiad o'r ardrethi a fydd, er mwyn eglurder, i'w hysgwyddo gan unrhyw feddiannydd newydd.

## TAW

Mae'r holl ffigyrau heb gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol.

## RHEOLIADAU GWYNGALCHU ARIAN

Fel rhan o'n rhwymedigaethau o dan Reoliadau Gwyngalchu Arian y DU 2017, bydd EJ Hales yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw denant / prynwr ddarparu prawf adnabod ynghyd ag unrhyw ddogfennau gofynnol eraill.

Nid yw E J Hales na'r Gwerthwr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gamgymeriad, camddatganiad neu hepgoriad yn y manylion hyn. Bras yw'r mesuriadau ac at ddiben rhoi canllaw yn unig. Nid yw'r manylion hyn yn gyfystyr ag unrhyw gynnig neu gontract ac nid oes gan E J Hales nac unrhyw un y maent yn ei gyflogi unrhyw awdurdod i wneud unrhyw sylw na gwarant mewn perthynas â'r eiddo.

## Y BROSES DENDRO

Ar gyfarwyddyd Cyngor Caerdydd, ceisir datganiadau o ddiddordeb drwy Broses Dendro Anffurfiol i ddod i law heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod busnes ar Dydd Iau 31 Gorffennaf 2025.

Mae'n ofynnol cyflwyno pob cynnig i'r cyswllt isod, naill ai drwy'r post neu drwy e-bost.

Owen Cahill
EJ Hales
28 Plas Windsor
Caerdydd, CF10 3SG
owen@ejhales.co.uk


Dylai'r cynnig gynnwys:

1 Enw a chyfeiriad llawn y darpar denant.
2 Defnydd / defnyddiau arfaethedig.
3 Profiad cefndir.
4 Cynllun Busnes (os yw ar gael).
5 Strwythur prydles arfaethedig.
6 Rhent neu rent tir arfaethedig.
7 Cymhelliant arfaethedig os oes angen (rhydd rhag rhent yn unig).
8 Manylion llawn y gwaith arfaethedig.
9 Manylion llawn unrhyw amodau.
10 Cyllid.
11 Llinellau amser dangosol.

**GWELD YR EIDDO**

Drwy apwyntiad yn unig drwy'r asiantau gosod tai, E J Hales, cysylltwch â:
**Owen Cahill** • Ffôn: **07824 638338** • E-bost: **owen@ejhales.co.uk**




Play Area
El Sub Sta
0.03152 hectares
Play Area